OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 10

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio

Staffio - gofynion cyffredinol

34.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas wedi eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw—

(a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth;

(b) i anghenion gofal a chymorth yr unigolion;

(c) i gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;

(d) i ofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 i 15.

(2) Yn achos gwasanaeth cartref gofal pan fo unrhyw unigolyn y darperir llety iddo wedi cael ei asesu yn rhywun y mae angen gofal nyrsio 24 awr arno, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod nifer digonol o nyrsys cofrestredig sydd â'r cymwysterau addas wedi eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth ar bob adeg.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth allu dangos y ffordd y mae'r penderfyniad wedi ei wneud o ran—

(a) y mathau o staff a ddefnyddir, a

(b) niferoedd y staff o bob math a ddefnyddir.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer cefnogi a datblygu staff.

(5) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau nad yw cyflogi neu gymryd ymlaen unrhyw bersonau ar sail dros dro neu ar gontract oriau heb eu gwarantu yn atal unigolion rhag cael y parhad gofal y mae'r darparwr wedi penderfynu yn unol â rheoliad 22 ei fod yn rhesymol i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth.

(6) Ym mharagraff (5) o'r rheoliad hwn, mae i "contract oriau heb eu gwarantu" yr un ystyr ag yn rheoliad 42.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 34 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to :

- reg. 34 coming into force by S.I. 2017/1264 reg. 1(2)
- reg. 34(5) word revoked by S.I. 2019/757 reg. 8

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
- reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)